## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (Y GERBYTFFORDD TUA'R DWYRAIN RHWNG CYFFORDD 2 (CYFNEWIDFA TŶ MAWR) A CHYFFORDD 3 (CYFNEWIDFA PENCALEDOG), YNYS MÔN) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 2 a Chyffordd 3, Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A55 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno hefyd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 23 Mehefin 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol dros nos (18:00 – 05:00 o'r gloch) o 23 Mehefin hyd 19 Gorffennaf 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A55 TRUNK ROAD (EASTBOUND CARRIAGEWAY FROM JUNCTION 2 (TŶ MAWR INTERCHANGE) TO JUNCTION 3 (PENCALEDOG INTERCHANGE), ANGLESEY) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the eastbound carriageway of the A55 trunk road between Junction 2 and Junction 3, Anglesey.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A55 trunk road described in the Schedule to this Notice. The alternative route is also described therein.

The Order comes into force on 23 June 2025. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (18:00 – 05:00 hours) from 23 June until 19 July 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLEN

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 230 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 2 hyd at bwynt 500 o fetrau i'r dwyrain o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 3, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 3.

Y llwybr arall

Y llwybr arall fydd gadael yr A55 ar hyd y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2, dilyn yr A5 tua'r dwyrain ac ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 3.

## SCHEDULE

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 230 metres west of the centre-point of Junction 2 to a point 500 metres east of the eastbound exit slip road at Junction 3, including the eastbound entry slip road at Junction 2 and eastbound exit slip road at Junction 3.

Alternative route

The alternative route will be to leave the A55 via the eastbound exit slip road at Junction 2, follow the eastbound A5 and rejoin the A55 at Junction 3.